Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach

Hydref 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **1 Sefydlu cyd-ddiwylliant o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol** | **6** |
| Diwylliant a pholisi | 6 |
| Rhwydweithiau proffesiynol oddi mewn i golegau a rhyngddynt | 7 |
| Strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth | 8 |
| **2 Trefniadau ymarferol ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu** | **8** |
| Dibenion arsylwi addysgu a dysgu | 8 |
| Pa mor aml y mae arsylwadau'n digwydd a sut y cânt eu cynllunio? | 9 |
| Defnyddio arsylwi cymheiriaid heb ei raddio | 11 |
| Rôl y mentor | 12 |
| Rhannu arfer athrawon rhagorol | 13 |
| **3 Pwy sy'n arsylwi gwersi a pham?** | **14** |
| **4 Sut mae colegau'n datblygu medrau arsylwi staff?** | **16** |
| Effaith arsylwi staff | 17 |
| **5 Sut mae colegau'n cofnodi arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol?** | **18** |
| **6 Sut mae colegau'n sicrhau cysondeb a thegwch wrth arsylwi addysgu a dysgu?** | **20** |
| **7 Effaith uno ar arfer arsylwi colegau** | **21** |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **22** |
| **Atodiad 2: Gwahanol fathau o arsylwi addysgu a dysgu sy'n cael eu defnyddio mewn colegau** | **23** |
| **Atodiad 3: Gwybodaeth gryno am y colegau** | **26** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **28** |

## Cyflwyniad

Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi i ymateb i gais am gyngor ar ‘arsylwi addysg a dysgu’ yn effeithiol gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2013-2014. Hwn yw’r ail o ddau adroddiad. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2014 ac mae’n canolbwyntio ar arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion (Estyn, 2014a). Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach (AB). Mae defnydd y term ‘arsylwi addysgu a dysgu’ yn adlewyrchu’r ystod eang o leoliadau a chyd-destunau y mae dysgu’n digwydd ynddynt mewn addysg bellach, er enghraifft ystafelloedd dosbarth, gweithdai, ceginau a salonau.

Mae’r adroddiad wedi ei fwriadu’n bennaf ar gyfer Llywodraeth Cymru a rheolwyr a staff mewn colegau AB. Gall fod o ddiddordeb yn ogystal i ddysgwyr, rhieni a staff mewn sectorau eraill ac asiantaethau sy’n cydweithio â cholegau i wella ansawdd addysgu a dysgu. Mae’r adroddiad hwn yn defnyddio’r dystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 1.

## Cefndir

Mae colegau’n arsylwi addysgu a dysgu am ystod eang o resymau, gan gynnwys:

- rhannu arfer effeithiol ymhlith staff
- datblygu dulliau penodol, medrau a ffyrdd arloesol o addysgu
- arfarnu effaith dulliau addysgu a dysgu arloesol
- nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu staff
- rhannu arfer effeithiol â cholegau eraill
- datblygu medrau athrawon trwy gymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol
- mentora a hyfforddi athrawon presennol, staff cymorth a darpar athrawon
- arsylwi athrawon newydd gymhwyso ac athrawon sydd newydd gael eu cyflogi
- sefydlu ansawdd addysgu ymgeiswyr wrth iddynt wneud cais am swydd mewn coleg
- arfarnu ansawdd dysgu ar draws yr ystod o amgylcheddau dysgu
- arfarnu ansawdd adolygiadau un-i-un mewn amgylcheddau dysgu galwedigaethol a dysgu yn y gwaith (DYYG)
- olrhain dysgwyr unigol er mwyn arsylwi eu profiadau dysgu a’u cynnydd
- monitro themâu trawsbynciol
- cynnal arolygiadau mewnol at ddibenion hunanasesu ac arfarnu
- llywio rheoli perfformiad staff

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu cryn drafodaeth ynghylch i ba raddau y mae arsylwi addysgu a dysgu mewn colegau yn cyfrannu at godi safonau cyflawniad dysgwyr a gwella ansawdd addysgu, a pha mor aml y dylid arsylwi athrawon.

Yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-2013, tynnodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant sylw at y canlynol ‘Mae ansawdd yr addysgu yn cael

effaith uniongyrchol ar y safonau y bydd [dysgwyr] yn eu cyflawni. Hwn yw'r ffactor unigol pwysicaf o ran helpu [dysgwyr] i gyflawni'u potensial' (Estyn, 2014b, t.26).

Yn arolygiadau Estyn o naw coleg AB[1] rhwng 2010 a 2013, roedd addysgu yn dda yn mewn chwech ohonynt, ac yn ddigonol mewn tri ohonynt. Yn yr un arolygiadau, roedd y safonau yr oedd dysgwyr yn eu cyflawni yn rhagorol mewn un coleg, yn dda mewn pump ohonynt, ac yn ddigonol mewn tri ohonynt.

Mae sefydliadau mawr fel colegau AB yn wynebu her benodol o ran sut i sicrhau bod addysgu ar draws y coleg yn gyson dda. Wrth i golegau uno'n sefydliadau mwy sy'n aml yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mwy, mae'r her wedi cynyddu.

Tynnodd pob un o'r colegau a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn sylw at brosiect Cronfa Gwella Ansawdd diweddar Llywodraeth Cymru, a gydlynwyd gan ColegauCymru, fel symbyliad sylweddol i'w meddylfryd ynghylch addysgu a dysgu. Roedd y prosiect yn cynnwys colegau'n datblygu ystod o 'arbrofion â chymorth', lle'r oedd athrawon yn defnyddio dulliau addysgu arloesol â chymorth mentoriaid ac ymgynghorwyr. Crybwyllodd y colegau fod y prosiect hwn wedi eu helpu i:

- ddatblygu eu dulliau arsylwi gwersi
- hyrwyddo cydweithio rhwng colegau yn ymwneud ag arsylwi gwersi
- datblygu diwylliant addysgu a dysgu cadarnhaol

Prif ffocws yr adroddiad hwn yn nodi sut mae colegau'n defnyddio arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol i wella safonau cyflawniad dysgwyr. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut gall arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol helpu athrawon, ymgynghorwyr hyfforddi, aseswyr dysgu yn y gwaith a staff cymorth dysgu i wella addysgu a dysgu, yn ogystal â helpu arweinwyr i gynorthwyo mentrau a fydd yn gwella datblygiad proffesiynol yr holl staff.

[1] Cynhaliwyd cyfanswm o 11 o arolygiadau AB o 2010-2013. Roedd dau o'r arolygiadau hyn o Brifysgol Cymru, Casnewydd sy'n cyflwyno darpariaeth Mynediad. Eithriwyd y rhain o'r dadansoddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae arsylwi addysgu a dysgu yn gweithio orau mewn colegau sydd â gweledigaeth strategol glir ar gyfer sut i gyflawni addysgu a dysgu o ansawdd uchel, diwylliant cryf o wella, hunanarfarnu a datblygiad proffesiynol parhaus, ac sy'n gweithio fel tîm. Yn y colegau hyn, mae arsylwi gwersi'n ddull ar gyfer helpu athrawon i wella eu harfer eu hunain yn bennaf, yn hytrach na chael ei ddefnyddio'n offeryn ar gyfer arolygiad mewnol neu hunanasesiad coleg.

2 Er bod gan bob coleg a oedd yn gysylltiedig â'r arolwg hyn ddogfen polisi addysgu a dysgu ar waith, dim ond lleiafrif ohonynt sydd â pholisi sy'n amlinellu'n benodol y dibenion, gweithdrefnau a'r disgwyliadau ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu, mewn ychydig o achosion, bod y staff sy'n cael eu harsylwi a'r arsylwyr, fel ei gilydd, yn aneglur ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel rhan o'r broses arsylwi.

3 Mae llawer o golegau wedi gweithio'n galed i ddatblygu diwylliant o arloesedd mewn addysgu a dysgu. Yn benodol, maent wedi gwneud defnydd da o brosiect y Gronfa Gwella Ansawdd[2]. Roedd y prosiect hwn, a gydlynwyd gan ColegauCymru, yn cynnwys colegau'n datblygu ystod o 'arbrofion â chymorth', lle mae athrawon yn ymarfer dulliau addysgu arloesol â chymorth mentoriaid ac ymgynghorwyr.

4 Ar draws y sector, mae rheolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i rwydweithio a rhannu syniadau ac arfer newydd. Fodd bynnag, nid oes digon o staff addysgu yn cyfranogi mewn cymunedau dysgu proffesiynol y tu mewn i'w colegau neu'r tu allan iddynt. O ganlyniad, nid ydynt yn arsylwi cymheiriaid ddigon i rannu arfer dda â chydweithwyr, nac i nodi a myfyrio ar gryfderau a gwendidau yn eu haddysgu eu hunain. Dim ond ychydig o golegau sy'n cynllunio amser ar gyfer arsylwi cymheiriaid yn eu rhaglenni datblygu staff.

5 Dim ond mewn ychydig iawn o golegau y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn arsylwi gwersi'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae colegau'n ystyried barn dysgwyr trwy ddulliau eraill, gan gynnwys:

- siarad â dysgwyr ar ddiwedd arsylwi addysgu a dysgu
- 'teithiau dysgu' o gwmpas y coleg, lle caiff dysgwyr eu holi am eu profiadau
- holi cynrychiolwyr dysgwyr, fforymau a grwpiau ffocws
- ffurflenni arfarnu ac arolygon sy'n cael eu cwblhau ar lefel cyrsiau
- arolygon colegau sy'n cael eu cynnal i gael gwybodaeth am brofiadau dysgwyr
- arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru

6 Mae'r holl golegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn defnyddio arsylwi'n rhan o broses gynlluniedig o fentora a hyfforddi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae

[2] Am ragor o wybodaeth am y Gronfa Gwella Ansawdd a'i deilliannau, gweler http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/quality-improvement-fund-teaching-and-learning/?lang=cy

colegau'n defnyddio mentoriaid yn dda i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu medrau. Crybwyllodd staff fod mentora yn ddefnyddiol iddynt ac yn ddatblygiadol.

7 Dim ond ychydig o golegau sy'n arsylwi cynorthwywyr cymorth dysgu yn ffurfiol. Trwy beidio â gwneud hynny, mae colegau'n colli cyfle pwysig i ddatblygu medrau cynorthwywyr cymorth dysgu a rhannu arfer dda. Mae hefyd yn golygu na all colegau asesu effaith cynorthwywyr cymorth dysgu ar gynnydd dysgwyr.

8 At ei gilydd, mae athrawon AB yn teimlo y bu'r broses arsylwi, wedi ei chyfuno â chymorth a mentora, yn fuddiol. Maent yn crybwyll bod y prosesau hyn wedi eu helpu i wella eu medrau addysgu, eu cymhwysedd proffesiynol, a'u hyder, a bod y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i ddysgwyr.

9 Fodd bynnag, mewn lleiafrif o golegau, gall fod gormod o ffocws ar radd wrth arsylwi gwersi'n ffurfiol, naill ai gan yr arsylwr neu'r athro/athrawes sy'n cael ei (h)arsylwi. Gall y ffocws gormodol hwn beri i arsylwadau achosi straen a bod yn llai effeithiol o ran gwella addysgu. Mewn cyferbyniad, mae adborth clir a thrafodaeth am y nodweddion da a'r meysydd i'w datblygu yn helpu athrawon i symud eu harfer ymlaen.

10 Mae'r holl golegau yn yr arolwg yn cymedroli ffurflenni arsylwi wedi'u graddio er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae panel o gymedrolwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr y tu allan i'r coleg, yn gwirio'r ffurflenni er mwyn sicrhau y cânt eu llenwi'n gywir a bod sylwebaeth arfarnol yr arsylwr yn cyfateb i unrhyw radd a roddwyd. O ganlyniad, mae ffurflenni'n fwy arfarnol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gliriach, ac mae'r graddau a ddyfernir yn fwy dibynadwy.

11 Mae colegau sydd wedi uno'n ddiweddar yng Nghymru wedi canolbwyntio, yn y cyfnod yn syth ar ôl uno, ar arfarnu'r cryfderau a'r gwendidau yn eu darpariaeth. Mae hyn wedi cyfrannu at rai staff yn teimlo eu bod yn cael eu 'gorarsylwi'. Erbyn hyn, mae'r colegau hyn yn symud tuag at raglenni arsylwi sy'n canolbwyntio'n adeiladol ar ddatblygu medrau addysgu eu staff.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 hyrwyddo cyfleoedd, fel prosiect y Gronfa Gwella Ansawdd, i gynorthwyo colegau wrth iddynt ddatblygu eu dulliau arsylwi addysgu a dysgu a'u hannog i rannu arfer arloesol ac effeithiol

**Dylai ColegauCymru:**

A2 gydweithio â cholegau a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cymunedau dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu addysgu a dysgu

**Dylai Colegau:**

A3 sefydlu diwylliant o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol er mwyn i'r holl staff ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau

A4 sefydlu arferion hunanarfarnu sy'n ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys arsylwi dosbarthiadau sy'n canolbwyntio ar safonau cyflawniad dysgwyr ac ar ansawdd addysgu a dysgu

A5 datblygu polisïau ac arferion clir a phenodol ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu y mae'r holl staff yn eu deall a'u cymhwyso, a sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddysgu, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, yn elwa ar arsylwadau rheolaidd

A6 trefnu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, ar sail tystiolaeth sy'n cynnwys arsylwi addysgu a dysgu, sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r coleg ac aelodau staff unigol

A7 ystyried manteision achredu arsylwyr â 'thrwydded arsylwi' fewnol neu fframwaith achredu allanol er mwyn gwella ansawdd a chysondeb hyfforddiant i arsylwyr

A8 gweithio ar y cyd â cholegau eraill i wella cysondeb arsylwadau wedi'u graddio ar draws colegau a rhannu arfer dda

A9 datblygu'r defnydd o arsylwadau heb eu graddio i helpu athrawon i ddatblygu eu medrau addysgu

A10 annog athrawon i fod yn berchen ar eu harfer broffesiynol eu hunain trwy roi cyfleoedd iddynt fyfyrio ar arfer, gan ddefnyddio arsylwadau cymheiriaid heb eu graddio, aelodaeth o rwydweithiau proffesiynol, mentora a chymorth cymheiriaid

## 1 Sefydlu cyd-ddiwylliant o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol

### Diwylliant a pholisi

12 Mae arsylwi addysgu a dysgu yn gweithio orau mewn colegau sydd â gweledigaeth strategol glir ar gyfer sut i gyflawni addysgu a dysgu o ansawdd uchel, diwylliant cryf o wella, hunanarfarnu a datblygiad proffesiynol parhaus, ac sy'n gweithio fel tîm.

13 Yn y colegau gorau, nid yw arsylwi gwersi'n offeryn ar gyfer arolygu'n fewnol a hunanasesu'r coleg yn bennaf, ond yn hytrach yn ddull ar gyfer helpu athrawon i wella eu harfer eu hunain.

14 Mae gan y colegau gorau flaenoriaeth glir, wedi'i deall yn dda, i wella safon a chysondeb addysgu. Mae gan bron pob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw wrth baratoi'r adroddiad hwn bolisïau addysgu a dysgu manwl.

15 Fodd bynnag, er bod gan bob coleg ddogfen bolisi ar waith, dim ond lleiafrif ohonynt sydd â pholisi sy'n amlinellu'n benodol y dibenion, gweithdrefnau a'r disgwyliadau ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu, mewn ychydig o achosion, nid yw'r staff sy'n cael eu harsylwi na'r arsylwyr, fel ei gilydd, yn hollol sicr ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel rhan o'r broses arsylwi.

**Astudiaeth achos: polisi arsylwi yng Ngholeg Cambria**

Mae gan Goleg Cambria bolisi arsylwi addysgu a dysgu manwl. Mae'r polisi'n amlinellu nodau ac amcanion rhaglen arsylwi'r coleg a'r manteision i ddysgwyr, staff a'r coleg. Mae'n cynnwys manylion am:

- y ffordd y caiff arsylwadau eu graddio, yr hyn y mae'r graddau'n ei olygu a pha gymorth neu gamau gweithredu eraill a ddisgwylir gan athrawon sy'n cael yr ystod lawn o raddau posibl
- y broses arsylwi – gan gynnwys yr hyn a ddisgwylir gan arsylwyr ac athrawon cyn, yn ystod ac ar ôl arsylwi
- y wybodaeth y disgwylir i athrawon ei rhoi i'r arsylwr a'r wybodaeth y mae angen i arsylwyr ei chael cyn arsylwi (er enghraifft, proffil dosbarth neu gynllun gwaith)
- protocolau i'r arsylwr eu dilyn wrth wrando ar ddysgwyr a siarad â nhw
- arweiniad ar amseriad, fformat a chynnwys adborth ysgrifenedig a llafar
- prosesau i athrawon roi adborth i dîm ansawdd y coleg ar eu profiad o gael eu harsylwi a'i effaith ar eu haddysgu
- y weithdrefn apelio
- prosesau ar gyfer cymedroli a sicrhau ansawdd arsylwadau
- cymorth a datblygiad ar ôl arsylwi

Mae'r polisi'n sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ddiben a phroses arsylwi addysgu a dysgu, a'u cyfraniad at ddiwylliant addysgu a dysgu cadarnhaol.

## Rhwydweithiau proffesiynol oddi mewn i golegau a rhyngddynt

16 Mae llawer o golegau wedi gweithio'n galed i ddatblygu diwylliant o arloesedd mewn addysgu a dysgu. Yn benodol, mae colegau wedi gwneud defnydd da o brosiect y Gronfa Gwella Ansawdd i helpu i ddatblygu diwylliant o arloesedd mewn addysgu a dysgu[3]. Roedd y prosiect, a gydlynwyd gan ColegauCymru, yn cynnwys colegau'n datblygu ystod o 'arbrofion â chymorth' (lle mae athrawon yn ymarfer dulliau addysgu arloesol â chymorth mentoriaid ac ymgynghorwyr). Er enghraifft, gweithiodd Coleg Gwent; Y Coleg, Merthyr Tudful; Coleg y Cymoedd a Choleg Pen-y-bont, ar y cyd i ddatblygu technegau addysgu, dysgu ac asesu i ymestyn a herio dysgwyr, ac yna aethant ati i greu clipiau fideo o arfer yn yr ystafell ddosbarth i athrawon, i'w rhannu rhwng sefydliadau. Hefyd, gwnaethant ddatblygu ystod o adnoddau i athrawon, gan gynnwys pecyn offer rhifedd a phecyn offer asesu ar gyfer dysgu.

17 Mae defnyddio arbrofion â chymorth trwy brosiect y Gronfa Gwella Ansawdd wedi annog colegau i ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol mewn colegau, a rhannu'r arfer y maent wedi ei datblygu ar draws y sector AB yn ehangach trwy rwydweithiau a chynadleddau. Hefyd, mae colegau wedi achub ar y cyfle i gydweithio ag ymgynghorwyr allanol i fireinio eu dulliau addysgu a dysgu a'u harfer arsylwi.

18 Mae pob coleg yng Nghymru yn mynychu rhwydwaith addysgu a dysgu tymhorol sy'n cael ei gydlynu gan ColegauCymru. Mae rheolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol athrawon yn defnyddio'r fforwm hwn yn fodd o rannu arfer dda a meithrin partneriaethau â cholegau eraill. Yn yr un modd, mae rhwydweithiau proffesiynol sy'n cael eu mynychu'n dda yn bodoli ar gyfer rheolwyr ansawdd. Mae rheolwyr colegau yn defnyddio'r rhwydweithiau hyn yn fforwm i drafod gwella ansawdd ac effeithiolrwydd arsylwi addysgu a dysgu. Mae rheolwyr yn rhannu syniadau ac arfer yn rhwydd ar draws y sector, er enghraifft trwy sefydlu trefniadau i reolwyr gymedroli arsylwadau dosbarth wedi'u graddio rhwng colegau, gan felly ddatblygu cyd-ddealltwriaeth well o ofynion pob gradd.

19 Mae'r mwyafrif o golegau'n cydweithio â cholegau eraill i gymedroli a sicrhau ansawdd arsylwi addysgu a dysgu. Mae hyn wedi eu helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n gyfystyr â gwers ragorol neu anfoddhaol, ac mae wedi helpu o ran hyfforddi arsylwyr.

20 Fodd bynnag, er bod staff ar lefel uwch reolwyr yn cael cyfleoedd da i fynychu rhwydweithiau, nid oes digon o staff addysgu'n cymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn eu colegau. O ganlyniad, nid ydynt yn arsylwi cymheiriaid ddigon i rannu arfer dda â chydweithwyr nac i nodi'r cryfderau a'r gwendidau yn eu haddysgu eu hunain.

[3] Am ragor o wybodaeth am y Gronfa Gwella Ansawdd a'i deilliannau, gweler http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/quality-improvement-fund-teaching-and-learning/?lang=cy

### Strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth

21 Mae gan y colegau gorau strwythurau rheoli clir ar waith. Mewn strwythur nodweddiadol, mae uwch reolwr yn gyfrifol am ddatblygu athrawon, ac mae ail uwch reolwr yn gyfrifol am sicrhau ansawdd addysgu a dysgu. Mae’r ddau reolwr hyn yn cydweithio’n agos â’i gilydd i sicrhau bod y model ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu yn cynorthwyo datblygiad proffesiynol athrawon ac yn galluogi’r coleg i arfarnu ei gryfderau a’i wendidau ei hun er mwyn llunio hunanasesiad cywir.

## 2 Trefniadau ymarferol ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu

### Dibenion arsylwi addysgu a dysgu

22 Mae colegau’n arsylwi addysgu a dysgu am ystod eang o resymau. Mae’r adroddiad hwn a’i adroddiad partner ar arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi nodi ystod debyg o resymau pam y mae colegau ac ysgolion yn defnyddio arsylwi, (Estyn, 2014a). Ceir sawl categori o ddefnyddiau ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu. Caiff y categorïau a’r dibenion eu nodi isod, ac yn fanylach yn Atodiad 2.

23 Mae bron pob coleg yn defnyddio arsylwi i rannu arfer effeithiol rhwng staff, naill ai drwy drefnu sesiynau datblygu staff ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol rhwng aelodau staff. Mae colegau’n eu defnyddio i ddatblygu dulliau addysgu penodol, medrau a ffyrdd arloesol o addysgu, er enghraifft trwy ofyn i aelodau staff weithio mewn parau neu grwpiau o dri i ddangos ffyrdd penodol o weithio i’w gilydd. Mewn ychydig o achosion, mae colegau’n defnyddio ymgynghorydd i ddangos a datblygu syniadau penodol.

24 Mae’r holl golegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r arolwg hwn yn defnyddio arsylwi fel rhan o broses gynlluniedig o fentora a hyfforddi athrawon presennol a darpar athrawon. Fel arfer, ni chaiff yr arsylwadau hyn eu graddio ac mae hyn yn annog staff i rannu arfer dda.

25 Mae ychydig o golegau’n helpu llywodraethwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgu a dysgu a gwaith y coleg trwy gynnal ‘teithiau dysgu’ neu arsylwi gwers ag uwch aelod o’r staff.

26 Mewn ychydig o achosion, mae colegau’n gwirio ansawdd addysgu ymgeisydd ar y rhestr fer pan fydd yn gwneud cais am swydd yn y coleg trwy gynnwys gweithgaredd arsylwi yn y broses ddethol. Fel arfer, caiff yr arsylwadau hyn eu graddio’n unol â’r gweithdrefnau dethol.

27 Yn y rhan fwyaf o golegau, mae uwch reolwyr yn defnyddio canlyniadau arsylwadau o addysgu a dysgu wedi’u graddio i fonitro cynnydd yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu ansawdd. Mae’r holl golegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r arolwg hwn yn defnyddio dadansoddiad o arsylwadau ffurfiol i lywio hunanasesiad blynyddol maes dysgu.

28 Mae rheolwyr yn cynnal arsylwadau fel rhan o'r broses rheoli perfformiad a'r arfarniad blynyddol o berfformiad aelod staff. Caiff yr arsylwadau hyn eu graddio, fel arfer.

29 Nid yw'n hawdd cofnodi gweithgareddau addysgu un-i-un, fel adolygiadau dysgu yn y gwaith, ar ffurflenni arsylwi addysgu a dysgu confensiynol. Yn hytrach, yn yr achosion gorau, mae colegau'n defnyddio math gwahanol o ffurflen i gofnodi adolygiadau dysgu yn y gwaith ac yn defnyddio dull arsylwi gwahanol, ar sail y medrau addysgu sydd eu hangen ar gyfer hyfforddi a mentora.

30 Dim ond ychydig o golegau sy'n arsylwi cynorthwywyr cymorth dysgu. Mae hyn yn colli cyfle i ddatblygu medrau cynorthwywyr cymorth dysgu a rhannu eu harfer dda. Mae hefyd yn golygu na all colegau asesu effaith cymorth dysgu ar gynnydd dysgwyr.

**Pa mor aml y mae arsylwadau'n digwydd a sut y cânt eu cynllunio?**

31 Yn y lleiafrif o achosion lle mae gan golegau bolisi clir sy'n amlinellu sail resymegol fanwl ar gyfer arsylwi, mae'r polisi'n cynnwys y rhesymau pam y mae'r coleg yn cynnal arsylwadau, sut a phryd y dylai arsylwyr gysylltu â'r sawl sy'n cael eu harsylwi, disgwyliadau'r ddau barti a beth sy'n digwydd wedi i'r arsylwi gael ei gwblhau. Mae hyn yn ddefnyddiol i arsylwyr a'r staff sy'n cael eu harsylwi, ac yn sicrhau bod pob parti'n ymwybodol o'r disgwyliadau ohonynt.

32 Yn nodweddiadol, bydd colegau'n arsylwi staff addysgu yn ffurfiol at ddibenion arfarnu unwaith y flwyddyn. Mewn llawer o golegau, mae hyn yn digwydd yn ystod cyfnodau diffiniedig o sawl wythnos yn ystod y flwyddyn. Ym mhob coleg, rhoddir rhyw fath o hysbysiad i staff ynghylch pryd y cânt eu harsylwi. Mewn lleiafrif o golegau, mae amlder arsylwadau ffurfiol yn dibynnu ar ganlyniadau arsylwi blaenorol: o unwaith bob dwy flynedd ar gyfer gradd 'rhagorol' flaenorol, i unwaith bob tri mis ar gyfer athrawon â gradd 'anfoddhaol' (bydd athrawon â gradd 'anfoddhaol' yn cael cymorth a chyngor gan fentor rhwng arsylwadau).

33 Mewn ychydig o golegau, bydd yr arsylwr a'r aelod staff yn cytuno ymlaen llaw pa wers a gaiff ei harsylwi. Mantais y dull hwn yw galluogi athrawon i roi gwybodaeth fanwl i'r arsylwr ymlaen llaw am gyd-destun a ffocws y dosbarth.

34 Yn yr achosion mwyaf effeithiol, naill ai caiff staff eu hysbysu neu maent yn trefnu â'u harsylwr i gael eu harsylwi yn ystod cyfnod diffiniedig, er enghraifft cyfnod o wythnos. Bydd yr arsylwr yn dewis gwers benodol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r dull hwn yn cadw'r fantais bod yr athro/athrawes yn cael rhywfaint o rybudd o'r arsylwi, ac yn rhoi rhywfaint o le i'r arsylwr amrywio'r wers y mae'n ei harsylwi.

**Astudiaeth achos: cyfnod o dridiau ar gyfer arsylwi yng Ngrŵp Llandrillo Menai**

Yng Ngrŵp Llandrillo Menai, mae arsylwyr yn rhoi gwybod i athrawon am gyfnod o dridiau pan maent yn bwriadu arsylwi un sesiwn. Nid yw arsylwyr yn rhoi gwybod i'r athrawon yn union pa sesiwn a gaiff ei harsylwi. Rhoddir hysbysiad ysgrifenedig i'r athrawon gan ddefnyddio ffurflen safonol, ac mae gofyn iddynt ddarparu ystod o wybodaeth i'r arsylwr, gan gynnwys:

- cofrestr a phroffil y dosbarth
- cynllun gwaith
- cynllun gwers
- deunyddiau addysgu i'w defnyddio yn y sesiwn
- gwybodaeth olrhain asesu
- enghreifftiau o waith dysgwyr wedi'i farcio ag adborth ysgrifenedig

Mae'r coleg yn darparu arweiniad ysgrifenedig i staff ar sut i lenwi'r rhain ac mae cymorth ar gael gan fentoriaid, yn ôl y gofyn.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod athrawon yn glir ynghylch yr amserlen ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu, fformat yr arsylwi ac unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ganddynt.

35 Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i athrawon ddarparu 'pecyn arsylwi' i'r arsylwr, sy'n cynnwys gwybodaeth gefndir am y dosbarth fel data presenoldeb, cyfraddau cyrhaeddiad a chwblhau hanesyddol, a chynlluniau gwersi neu gynlluniau gwaith. Yn aml, disgwylir i athrawon ddarparu proffil o'r dosbarth yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ddysgwyr yn y dosbarth, fel canlyniadau asesiadau cychwynnol, anghenion dysgu penodol, mannau cychwyn dysgwyr a gwybodaeth arall a all ddylanwadu ar gynllunio gwers neu gynnydd dysgwyr. Mae hyn yn darparu gwybodaeth gefndir a chyd-destun defnyddiol i'r arsylwr, ond gall ychwanegu at lwyth gwaith yr aelod staff sy'n cael ei (h)arsylwi, yn enwedig os nad yw'r aelod staff yn gwybod yn union pa wers fydd yn cael ei harsylwi.

36 Mewn ychydig o golegau, bydd yr arsylwr a'r athro/athrawes yn cynnal cyfarfod cyn-arsylwi. Daw'r athro/athrawes â'r cynllun gwaith ac amserlen asesu i'r cyfarfod hwn. Mae'r cyfarfod yn galluogi'r arsylwr i ymgyfarwyddo â'r pwnc, lefel a nodweddion unigryw y dosbarth. Fel arfer, caiff y cyfarfod ei gynnal o leiaf wythnos cyn y dyddiad arsylwi.

**Astudiaeth achos: gwybodaeth sydd ei hangen ar arsylwyr yng Ngholeg Cambria**

Yng Ngholeg Cambria, nid yw staff yn cytuno ar wers benodol i'w harsylwi, ond caiff y wers ei dewis gan yr arsylwr o ystod o wersi mewn cyfnod o amser. Yr arsylwr sy'n gyfrifol am lawrlwytho copi o'r cynllun gwaith o storfa ddata ganolog a phroffil sylfaenol o'r dosbarth o system gwybodaeth reoli'r coleg. Nid yw'n ofynnol i athrawon lunio cynllun gwers ar gyfer pob dosbarth yn ystod y cyfnod.

Mae'r model hwn yn galluogi'r arsylwr i gael cefndir digonol i'r dosbarth, wrth leihau'r llwyth gwaith ar gyfer yr athro/athrawes ar yr un pryd, sy'n gorfod darparu gwybodaeth am y dosbarth i'r arsylwr.

37 Mae llawer o golegau'n cynnal arolygiadau mewnol ffurfiol hefyd at ddibenion hunanasesu. Yn nodweddiadol, caiff y rhain eu cynnal dros gylch o dair blynedd ar lefel meysydd dysgu. Ym mhob achos a arolygwyd yn y cylch gwaith, mae colegau'n dilyn model Estyn ac yn arsylwi sampl o sesiynau, yn cyfweld â dysgwyr heb eu hathrawon ac yn craffu ar waith dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae colegau'n arsylwi staff fel rhan o arolygiad mewnol, ni chaiff staff eu harsylwi eto yn yr un flwyddyn fel rhan o gylch arsylwi'r coleg.

**Defnyddio arsylwi cymheiriaid heb ei raddio**

38 Mae'r holl golegau a arsylwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn defnyddio arsylwi cymheiriaid. Mae athrawon, yn enwedig y rhai sydd wedi'u graddio'n rhagorol gan eu sefydliadau eu hunain, yn gwerthfawrogi arsylwi cymheiriaid yn fawr. Maent yn crybwyll bod arsylwi cymheiriaid yn eu helpu i fyfyrio ar eu harfer eu hunain, rhannu syniadau ag athrawon eraill a gwella eu medrau addysgu eu hunain, yn y pen draw.

39 Fodd bynnag, nid yw digon o golegau'n hyrwyddo arsylwi cymheiriaid yn weithredol fel dull effeithiol o ddatblygu athrawon. Dim ond mewn ychydig o'r achosion gorau y mae colegau'n cynnwys amser cynlluniedig ar gyfer arsylwi cymheiriaid yn eu rhaglenni datblygu staff, ac yn annog athrawon i fyfyrio ar eu harfer eu hunain â chymorth tystiolaeth arsylwi cymheiriaid. Dim ond tua hanner y colegau sydd â ffurflenni a ddatblygwyd yn benodol at y diben hwn.

**Astudiaeth achos: 'arsylwadau datblygu athrawon' yng Ngholeg Gwent**

Yng Ngholeg Gwent, caiff un math o arsylwi cymheiriaid ei alw'n 'arsylwad datblygu athrawon'. Arsylwadau heb eu graddio yw'r rhain, sydd wedi eu bwriadu i'w defnyddio gan athrawon sy'n dymuno datblygu eu harfer eu hunain trwy arsylwi arfer dda athrawon eraill. Cânt eu defnyddio gan staff addysgu i ddysgu oddi wrth ei gilydd ar draws meysydd pwnc, timau a champysau.

Ceir ffurflen benodol ar gyfer cofnodi'r arsylwi. Mae'r ffurflen hon yn helpu'r athro/athrawes sy'n arsylwi i fyfyrio ar y pwyntiau datblygu athrawon a nodwyd yn ei (h)arfarniad neu ei (h)arsylwi addysgu a dysgu ei hun.

**Astudiaeth achos: Coleg Gŵyr Abertawe - defnydd estynedig o arbrofion â chymorth a llai o arsylwadau wedi'u graddio**

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn rhoi cynnig ar ddull gwahanol o arsylwi. Ers uno dair blynedd yn ôl, mae'r cylch arsylwi blynyddol wedi canolbwyntio ar arolygu mewnol, hunanasesu ac arfarnu staff. Fodd bynnag, penderfynodd y coleg nad oedd llawer mwy i'w ennill o arsylwadau confensiynol pellach.

Yn hytrach, mae'r coleg wedi canolbwyntio ar dimau'r cwricwlwm yn gweithio ar brosiectau yn datblygu arloesedd mewn addysgu a dysgu, fel:

- datblygu methodolegau asesu newydd i gymhwyso newidiadau i feysydd llafur BTEC
- 'ystafelloedd dosbarth troëdig', lle mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol cyn y

dosbarth i ddeall y cysyniadau a edrychir arnynt ac yn treulio'r amser yn y dosbarth yn ymarfer ac yn cymhwyso eu gwybodaeth newydd
- gwella ansawdd adborth i ddysgwyr

Nodwedd arwyddocaol o bob un o'r prosiectau yw defnyddio arsylwadau heb eu graddio, naill ai gan gymheiriaid neu fentoriaid addysgu a dysgu. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r coleg yn bwriadu cynnal digwyddiadau 'rhannu arfer', lle bydd timau cyrsiau'n arddangos y dulliau y buont yn eu datblygu.

**Rôl y mentor**

40 Mae'r holl golegau yn yr arolwg wedi buddsoddi yn rôl y 'mentor addysgu a dysgu'. Ymarferwyr arbenigol profiadol a chydnabyddedig yw'r rhain. Mae amser wedi ei ddyrannu ar eu hamserlenni i ddarparu mentora strwythuredig i staff newydd, staff ar gyfnod prawf a'r athrawon hynny y nodwyd bod angen iddynt wella. Hefyd, maent yn cymryd rhan mewn arsylwadau ac arolygiadau mewnol, yn darparu gwersi enghreifftiol a sesiynau datblygu staff, yn arwain rhwydweithiau addysgu a dysgu mewnol sydd wedi eu seilio yn y coleg, ac yn cydweithio â rheolwyr meysydd dysgu i ddatblygu dulliau addysgu a dysgu penodol, yn ogystal â gweithio â chydweithwyr i ddatblygu adnoddau addysgu.

41 Yn yr holl golegau yn yr arolwg, caiff athrawon sy'n cael eu graddio'n ddigonol neu'n anfoddhaol ar ôl arsylwi addysgu a dysgu gymorth dilynol gan fentor. Gall hyn gynnwys arsylwi anffurfiol fel rhan o'r broses honno, wedi ei ddilyn gan arsylwi ffurfiol wedi ei raddio, dri mis yn ddiweddarach, fel arfer.

42 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae colegau'n defnyddio mentoriaid yn dda i gynorthwyo athrawon a datblygu eu medrau. Crybwyllodd staff fod cymorth yn ddefnyddiol iddynt ac yn ddatblygiadol. Yn ogystal â gwerth ymarferol eu cymorth, mae mentoriaid yn helpu i gyfrannu at ddatblygu diwylliant cadarnhaol o addysgu a dysgu yn y coleg.

**Astudiaeth achos: mentora yng Ngrŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot**

Mae gan fentoriaid y teitl 'Uwch Ddarlithydd, Addysgu a Dysgu'. Cânt amser dynodedig i weithio â maes cwricwlwm penodol. Pan gaiff aelod staff o faes cwricwlwm ei (h)arsylwi'n ffurfiol a'i (g)raddio'n ddigonol neu'n anfoddhaol, bydd rheolwr y maes cwricwlwm yn cyfeirio'r athro/athrawes at yr Uwch Ddarlithydd Addysgu a Dysgu i ddatblygu ei fedrau/medrau addysgu. Gall hyn gynnwys cyfnod o anogaeth neu hyfforddiant dwys, gan gynnwys arsylwi anffurfiol. Caiff hyn ei ddilyn gan arsylwi ffurfiol dilynol. Bydd arsylwr gwahanol yn gwneud hyn, heb fod yn llai na chwe wythnos ar ôl yr arsylwi gwreiddiol, fel arfer.

Mae athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y broses ddatblygu hon yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd gan y mentor. Maent yn crybwyll ei bod yn effeithiol o ran gwella eu perfformiad addysgu. Ym mron pob achos, mae uwch reolwyr yn y coleg wedi darganfod bod y dull hwn wedi codi safon addysgu eu hathrawon nad oeddent yn perfformio cystal.

**Rhannu arfer athrawon rhagorol**

43 Mae’r holl golegau yn yr arolwg yn defnyddio athrawon a raddiwyd yn rhagorol mewn arsylwadau addysgu a dysgu wedi’u graddio. Mae’r gweithgareddau maent yn ymgymryd â nhw yn cynnwys rhoi gwersi enghreifftiol a chyfrannu at sesiynau datblygu staff yn ystod diwrnod hyfforddiant mewn swydd (HMS) pan nad ydynt yn addysgu. Hefyd, maent yn cynnal gwersi ‘drws agored’, lle mae croeso i gymheiriaid ddod i’r dosbarth i arsylwi arfer arloesol yn anffurfiol mewn gwers, ac yna cymryd rhan mewn sgyrsiau proffesiynol â chydweithwyr am wella arfer.

**Astudiaeth achos: rhannu arfer addysgu ragorol yng Ngholeg Sir Gâr**

Mae’r coleg yn cynnal ‘Cynhadledd Addysgu a Dysgu’ flynyddol am ddeuddydd yn ystod yr wythnos datblygu staff, sy’n cynnwys cyfres o sgyrsiau, sesiynau hyfforddi, seminarau a sesiynau rhannu arfer dda.

Mae athrawon rhagorol, yn ogystal â mentoriaid addysgu a dysgu, yn arwain y sesiynau hyn. Yn ystod y tymor, maent yn cynnig sesiynau ‘drws agored’, lle mae croeso i gymheiriaid ddod i’r dosbarth i arsylwi dulliau addysgu arloesol yn anffurfiol.

Mae athrawon rhagorol yn cymryd rhan mewn fideos yn amlygu technegau addysgu. Mae’r fideos hyn ar gael i staff eu gwylio a chânt eu defnyddio mewn sesiynau mentora. Mae pynciau’n cynnwys: codi disgwyliadau yn yr ystafell ddosbarth; ymgorffori themâu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF); datblygu strategaethau sy’n herio dysgwyr; a’r ffordd orau i ddefnyddio gwybodaeth am gyflawniadau blaenorol dysgwyr, lefelau llythrennedd a rhifedd ac unrhyw anawsterau dysgu i lywio’r dewis o strategaethau addysgu i’w defnyddio mewn dosbarth.

Hefyd, mae’r coleg yn arbrofi â phroses arsylwi cymheiriaid tair ffordd. Mae athro/athrawes r(h)agorol yn cydweithio â dau o athrawon da. Mae’r tri ohonynt o feysydd pwnc/sector gwahanol. Mae’r athrawon yn arsylwi ei gilydd ac yn nodi rhagoriaeth y gellir ei rhannu, ynghyd â meysydd i’w datblygu y maent yn myfyrio arnynt yn ddiweddarach mewn trafodaeth broffesiynol. Yna, mae athrawon yn nodi eu hanghenion cymorth neu ddatblygiad proffesiynol eu hunain.

**Astudiaeth achos: astudiaethau achos arfer ragorol yng Ngrŵp Llandrillo Menai**

Caiff arfer ragorol a nodwyd o arsylwadau addysgu a dysgu blynyddol ei chofnodi mewn cyfres o astudiaethau achos. Yn y gynhadledd addysgu a dysgu flynyddol yn y coleg, caiff yr astudiaethau achos eu dosbarthu i’w defnyddio gan athrawon eraill yn y maes dysgu ac ar draws y coleg. Caiff hyn yr effaith o rannu arfer dda, ond hefyd datblygu medrau myfyrio’r athrawon dan sylw.

44 Mewn tua hanner y colegau a welwyd yn yr arolwg hwn, nid yw’n ofynnol i athrawon sy’n cael graddau rhagorol mewn arsylwadau wedi’u graddio, ac sydd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhannu arfer dda, gael arsylwad wedi’i raddio y flwyddyn ganlynol. Mae hyn oherwydd y cânt eu hystyried yn ‘risg isel’. Mae’r dull hwn yn gymhelliant i gymryd rhan mewn digwyddiadau lledaenu hefyd.

## 3 Pwy sy'n arsylwi gwersi a pham?

45 Mae gan bron pob un o'r colegau batrwm tebyg yn y modd y maent yn defnyddio staff fel arsylwyr. Mae rheolwyr colegau'n cynnal arsylwadau ffurfiol wedi'u graddio at ddibenion arfarnu. Mae'r rheolwyr yn amrywio o lefel uwch reolwyr, rheolwyr canol, rheolwyr trawsgoleg ac arweinwyr isadrannau. Mae nifer y staff a ddefnyddir yn y broses hon yn amrywio yn ôl maint y coleg. Er enghraifft, mewn coleg mawr sydd wedi'i uno'n ddiweddar, hyfforddwyd tîm o 70 o staff, ar lefel rheolwyr canol yn bennaf, i gynnal arsylwadau blynyddol wedi'u graddio. Mae colegau'n defnyddio uwch reolwyr mewn arsylwadau blynyddol hefyd, er bod ganddynt rôl sicrhau ansawdd, cymedroli neu gyflafareddu anghydfodau, fel arfer. Mae cryn amrywiad o ran p'un a yw rheolwyr llinell yn arsylwi eu staff eu hunain. Yn nodweddiadol, mewn colegau sydd newydd eu huno lle mae ailstrwythuro a newidiadau i bersonél yn golygu nad yw rheolwyr yn gwybod beth yw cryfderau a meysydd eu holl staff, rheolwyr llinell sy'n arsylwi.

46 Mae bron pob un o'r colegau'n defnyddio tîm bach o arsylwyr mewn arolygiadau mewnol at ddibenion hunanarfarnu, gan ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid sydd wedi eu hyfforddi gan Estyn a dilyn dull Estyn, fel arfer. Efallai na fydd y tîm yn cynnwys rheolwyr, o reidrwydd, ac, mewn rhai achosion, mae'n cynnwys mentoriaid a staff hyfforddi athrawon mewnol y coleg.

47 Pan gaiff arsylwi ei ddefnyddio at ddibenion mentora, mae gan yr holl golegau a oedd yn rhan o'r arolwg fentoriaid addysgu a dysgu sy'n cydweithio ag athrawon newydd gymhwyso, darpar athrawon, athrawon ag anghenion datblygu a nodwyd neu athrawon eraill sy'n ceisio cyngor neu ddatblygiad. Yn nodweddiadol, nid yw mentoriaid yn graddio eu harsylwadau, ond maent yn canolbwyntio ar gynnydd a meysydd i'w gwella.

48 Ar gyfer arsylwi cymheiriaid, mae'r holl golegau'n adrodd eu bod yn defnyddio arsylwi anffurfiol rhwng cymheiriaid. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o golegau sy'n rhoi digon o bwys ar fantais bosibl arsylwi cymheiriaid, er enghraifft trwy gynnwys amser mewn rhaglenni datblygu athrawon i gymryd rhan mewn arsylwi cymheiriaid. Nid oes gan bob coleg ffurflen benodol i helpu athrawon i gofnodi, myfyrio a dysgu o'r profiadau hyn. Nid oes digon o golegau'n rhoi ystyriaeth ddigonol i werth posibl arsylwi cymheiriaid o ran datblygu medrau myfyrio a chymwyseddau addysgu athrawon.

49 Nid yw llywodraethwyr yn y colegau a oedd yn rhan o'r arolwg yn cymryd rhan mewn arsylwi addysgu yn ffurfiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o golegau, mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn arsylwi mwy cyffredinol i gael dealltwriaeth well o fywyd y coleg. Er enghraifft, yng Ngholeg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant, mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn 'teithiau arweinyddiaeth', lle maent yn siarad â dysgwyr ac athrawon, ac yn arsylwi dysgwyr mewn dosbarthiadau ac ym mywyd beunyddiol y coleg. Ni chaiff teithiau arweinyddiaeth eu cofnodi'n ffurfiol, ond maent yn cyfrannu at ddealltwriaeth gyffredinol llywodraethwyr o'r coleg.

50 Yn y colegau a oedd yn rhan o’r arolwg, nid yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn arsylwi athrawon yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae colegau’n nodi barn dysgwyr trwy ddulliau eraill, gan gynnwys:

- siarad â dysgwyr ar ddiwedd arsylwi addysgu a dysgu er mwyn gwrando’n uniongyrchol ar eu profiadau a helpu i driongli amgyffrediad yr arsylwr o arsylwi addysgu
- ‘teithiau dysgu’ o gwmpas y coleg, lle caiff dysgwyr eu holi am eu profiadau
- holi cynrychiolwyr dysgwyr, fforymau a grwpiau ffocws
- ffurflenni arfarnu ac arolygon sy’n cael eu cwblhau ar lefel cyrsiau
- arolygon colegau sy’n cael eu cynnal i gael gwybodaeth am brofiadau dysgwyr
- arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru

51 Ym mhob achos, mae gwrando ar farn dysgwyr am ansawdd addysgu yn hanfodol ar gyfer triongli’r dystiolaeth o arsylwi ar effeithiolrwydd addysgu a mesur y cynnydd y gwna dysgwyr yn eu dysgu.

52 Mewn ychydig o achosion, caiff barn dysgwyr ei hystyried yn y broses ddethol ar gyfer ymgeiswyr sy’n gwneud cais am swyddi addysgu mewn colegau.

**Astudiaeth achos: caiff dysgwyr yng Ngholeg Sir Gâr eu cynnwys wrth benodi athrawon**

Mae dysgwyr yn rhan o’r broses ddethol yng Ngholeg Sir Gâr. Gofynnir i ddysgwyr sy’n cymryd rhan mewn sesiynau microaddysgu sy’n cael eu cyflwyno gan ymgeiswyr raddio perfformiad addysgu pob ymgeisydd. Yna, caiff yr adborth gan ddysgwyr ei ystyried gan banel dethol wrth iddynt ystyried addasrwydd pob ymgeisydd ar gyfer swydd.

53 Mae colegau’n cydweithio ag ystod o bartneriaid eraill i ddod ag elfen allanol werthfawr i’w harsylwadau addysgu a dysgu at ddibenion arolygu mewnol. Yn achos ysgolion, mae colegau’n cydweithio â phenaethiaid ac uwch aelodau staff o ysgolion partner, yn enwedig yn achos cydweithio 14-19 rhwng ysgolion a cholegau. Mae’r rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda rhwng ysgolion a cholegau.

54 Mae colegau’n cydweithio â chynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd, yn enwedig yng nghyd-destun dysgu oedolion yn y gymuned, lle mae colegau’n rhan o bartneriaeth fwy a all gynnwys darpariaeth awdurdod lleol ac aseswyr cymheiriaid allanol o golegau eraill sy’n cymryd rhan yng nghylch arolygu mewnol blynyddol coleg.

55 Yn y consortia dysgu yn y gwaith, mae sawl coleg a darparwyr hyfforddiant preifat yn defnyddio gweithdrefnau cofnodi sydd wedi eu cytgordio, yn rhannu arsylwyr ac yn gweithredu prosesau ar y cyd i gymedroli arsylwadau wedi’u graddio.

## 4 Sut mae colegau'n datblygu medrau arsylwi staff?

56 Yn gyffredinol, mae colegau'n hyfforddi eu harsylwyr yn effeithiol ac mae ganddynt ddulliau cadarn ar waith i sicrhau dibynadwyedd arsylwadau wedi'u graddio.

57 Cymerodd yr holl golegau a oedd yn rhan o'r arolwg hwn ran mewn prosiectau'r Gronfa Gwella Ansawdd hefyd. Maent wedi elwa ar gyfnewid yn gydweithredol â cholegau eraill. Yn ogystal, crybwyllodd yr holl golegau eu bod wedi cael budd o'r ymgynghorwyr allanol a gydweithiodd â nhw ar eu prosiectau'r Gronfa Gwella Ansawdd, sydd wedi arwain at newidiadau defnyddiol i arfer arsylwi mewn rhai achosion.

58 Mae tua hanner y colegau yn yr arolwg wedi ymweld â cholegau â pherfformiad uchel mewn rhannau eraill o'r DU hefyd i ddysgu o'u harferion arsylwi a mireinio eu polisïau eu hunain, o ganlyniad.

59 Mae gan yr holl golegau a oedd yn rhan o'r arolwg arolygwyr cymheiriaid wedi eu hyfforddi gan Estyn ymhlith eu staff. Yn gyffredinol, mae colegau'n defnyddio eu staff sydd wedi eu hyfforddi gan Estyn yn effeithiol i:

- arwain arolygiadau mewnol neu gymryd rhan ynddynt
- rhaeadru diweddariadau a hyfforddiant Estyn i gydweithwyr ar draws y coleg
- cymedroli arsylwadau wedi'u graddio o arolygiadau mewnol neu arsylwadau wedi'u graddio at ddibenion arfarnu staff
- bod yn bartneriaid i arsylwyr sydd newydd eu hyfforddi i arsylwi sesiynau ar y cyd er mwyn sicrhau ansawdd yr arsylwr newydd a sicrhau bod graddau'n ddibynadwy ac yn gyson
- cymryd rhan mewn apeliadau lle mae aelod staff yn anghytuno â'r radd a ddyfarnwyd iddo/iddi
- cymryd rhan mewn digwyddiadau cymedroli â cholegau eraill

60 Mae tua hanner y colegau yn yr arolwg wedi datblygu math o achrediad y mae'n rhaid i arsylwyr ei gyflawni cyn y gallant gynnal arsylwadau wedi'u graddio. Mewn un enghraifft, mae'n ofynnol i arsylwyr fynychu hyfforddiant a chael eu hasesu cyn cyflawni 'trwydded arsylwi'. Mewn enghraifft arall, bu coleg yn cydweithio â sefydliad dyfarnu i achredu ei raglen hyfforddiant arsylwi. Mae'r rhain yn ddulliau effeithiol o hyrwyddo safonau uchel mewn arsylwi, gwella dibynadwyedd a datblygu diwylliant cadarnhaol.

**Astudiaeth achos: hyfforddiant achrededig i arsylwyr yng Ngholeg Gwent**

Fel rhan o'i hyfforddiant arweinyddiaeth, mae'r coleg wedi datblygu rhaglen hyfforddiant arsylwi. Mae'n cynnwys tri llinyn: medrau arsylwi, medrau adborth a medrau ysgrifennu adroddiadau. Mae staff o bob rhan o'r coleg a staff sydd wedi eu cyflogi mewn awdurdodau lleol trwy bartneriaeth y fasnachfraint dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Darparodd hyfforddwr allanol yr hyfforddiant trwy gyfres o weithdai, a oedd yn cynnwys arsylwi mewn parau i asesu cymhwysedd arsylwyr yn erbyn meini prawf ar

gyfer pob un o'r llinynnau. Cwblhaodd dros 100 o aelodau staff y fframwaith cymhwysedd arsylwi hwn.

I ddatblygu'r rhaglen ymhellach, mae'r coleg wedi cydweithio â chorff dyfarnu i achredu'r rhaglen ac mae 40 o'r arsylwyr DOG wedi cyflawni'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus. Mae'r coleg yn ystyried ymestyn y rhaglen i bob arsylwr.

**Effaith arsylwi ar staff**

61 Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys cyfweliadau ag ystod o staff addysgu ym mron pob coleg, gan gynnwys y rhai y nodwyd bod angen datblygu eu haddysgu. At ei gilydd, mae'r athrawon hyn o'r farn bod y broses arsylwi, ynghyd â chymorth, mentora a datblygu, wedi bod o fudd iddynt. Maent yn crybwyll bod y prosesau hyn wedi eu helpu i wella eu medrau addysgu, eu cymhwysedd proffesiynol a'u hyder fel athrawon, a bod y newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i ddysgwyr.

62 Fodd bynnag, ar yr ychydig o achlysuron pan nododd staff anfodlonrwydd â'r broses arsylwi, gwnaethant amlygu rhai pryderon. Roedd un ohonynt yn bryder ynghylch dibynadwyedd arsylwadau wedi'u graddio; er enghraifft roedd, amgyffrediad bod rhai arsylwyr yn 'raddwyr mwy llym' nag arsylwyr eraill. Roedd pryder arall yn ymwneud â ffocws annigonol yn ystod arsylwadau dilynol ar feysydd i'w datblygu a nodwyd wrth arsylwi am y tro cyntaf. Roedd diffyg eglurder hefyd ynghylch y wybodaeth y byddai'r arsylwr yn disgwyl ei gweld fel rhan o arsylwi.

63 Roedd adborth gan rwydwaith rheolwyr ansawdd colegau yn codi materion mwy cyffredinol ynghylch effaith bosibl arsylwi ar staff. Dywedodd y rheolwyr ansawdd y gall staff deimlo dan bwysau wrth gael eu harsylwi ac y gall hyn effeithio ar eu perfformiad. Gall fod gormod o ffocws ar radd, naill ai gan yr arsylwr neu'r athro/athrawes sy'n cael ei (h)arsylwi, a gall hyn beri i arsylwi achosi mwy o straen a bod yn llai effeithiol o ran gwella addysgu, ond mae adborth clir ar addysgu a dysgu yn helpu'r athro/athrawes sy'n cael ei (h)arsylwi i symud ei (h)arfer ymlaen. Gall proses arsylwi sy'n gofyn i athrawon ddarparu gormod o wybodaeth i'r arsylwr gynyddu'r llwyth gwaith a'r straen i staff. Yn olaf, dywedodd rheolwyr y gall gorddefnyddio arsylwadau wedi'u graddio lesteirio datblygiad athrawon, gan olygu eu bod naill ai'n dod yn hunanfodlon os ydynt yn cael graddau da, neu'n ddigalon os oes rhywun yn dweud wrthynt eu bod yn wael.

64 Yn gryno, mae'r holl golegau a oedd yn rhan o'r arolwg yn ymwybodol o effeithiau negyddol posibl arsylwi ar staff. Mae'r colegau mwyaf effeithiol yn cymryd camau i leihau effaith y rhain trwy sicrhau bod ganddynt bolisïau ac arferion clir yn ymwneud ag arsylwi addysgu a dysgu. Hefyd, maent yn ceisio gwneud arsylwi, boed wedi'i raddio neu beidio, yn ddatblygiadol, a rhoi cymorth, mentora a hyfforddiant i staff i wella eu harfer addysgu. Maent yn lleihau'r defnydd o arsylwadau wedi'u graddio lle nad oes eu hangen, ac yn defnyddio arsylwadau heb eu graddio neu arsylwi cymheiriaid i sicrhau bod staff yn canolbwyntio ar gryfderau a meysydd i'w gwella.

## 5 Sut mae colegau'n cofnodi arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol?

65 Ym mron pob un o'r colegau yn yr arolwg, mae ffurflenni arsylwi yn galluogi'r arsylwr i ysgrifennu sylwadau arfarnol am ystod o agweddau ar addysgu a dysgu yn y sesiwn a arsylwyd. Ychydig iawn o golegau sy'n defnyddio dull 'ticio blwch' syml, sy'n dueddol o gulhau arsylwi i gyfres syml o nodweddion arwynebol ac yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i nodi arfer dda neu feysydd i'w gwella yn llawn. Mae ffurflen â blychau ticio heb fawr o sylwebaeth arfarnol, os o gwbl, hefyd yn rhoi ychydig iawn o gyfle i gymedrolwyr arfarnu dilysrwydd y graddau a ddyfernir gan arsylwyr, ac felly mae'n ei gwneud hi'n anoddach cymedroli graddau ar draws coleg.

66 Mae ffurflenni arsylwadau wedi'u graddio bron pob coleg yn cynnwys graddau ar wahân ar gyfer addysgu a dysgu (y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni). Mae hyn yn helpu arsylwyr i ganolbwyntio ar gynnydd dysgwyr a pha mor dda y mae strategaethau addysgu yn hyrwyddo dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, yn enwedig lle mae dibyniaeth ar ddull ticio blwch, nid yw'r broses arsylwi, a'r ffurflenni a ddefnyddir i'w chofnodi, yn rhoi digon o ystyriaeth i gynnydd dysgwyr.

67 Caiff y prosesau a'r ffurflenni mwyaf effeithiol ar gyfer cofnodi arsylwadau eu defnyddio gan leiafrif o golegau. Yn yr arfer orau, mae'r ffurflen yn rhoi cyfle am sylwebaeth ysgrifenedig ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Nid yw'r ffurflen yn canolbwyntio ar addysgu yn unig, ond yn hytrach, mae'n gofyn i'r arsylwr gofnodi ac arfarnu'r hyn y mae dysgwyr yn ei wneud, faint o gynnydd maent yn ei wneud yn ystod y wers, a safon y gwaith y maent yn ei chyflawni. Rhaid i'r arsylwr gyfiawnhau pam y mae wedi dyfarnu gradd benodol. Mae hyn yn ddefnyddiol i'r arsylwr oherwydd ei bod yn esbonio'r rhesymau dros y barnau y mae'n eu gwneud ac yn ddefnyddiol i'r cymedrolwr oherwydd ei bod yn ei helpu i ddeall pam y mae'r arsylwr wedi rhoi gradd benodol. Caiff ystod o feini prawf ei chynnwys, sy'n ddefnyddiol i'r athrawon o ran nodi proffil o'u cryfderau a'n gwendidau eu hunain, ac i'r coleg o ran nodi ei flaenoriaethau ar gyfer datblygu a chynorthwyo staff. Mae'r broses yn galluogi'r arsylwr i gynnwys gwybodaeth ystadegol i roi cyd-destun i'r dosbarth a nodi tueddiadau ym mherfformiad dysgwyr. Mae gan y ffurflen ardal i gofnodi adborth a sylwadau gan ddysgwyr sy'n ychwanegu cyd-destun at y wers ac a all ddylanwadu ar unrhyw radd a ddyfernir. Mae'n amlygu nodweddion arfer dda a meysydd i'w gwella yn glir. Yn yr enghreifftiau gorau, mae meysydd i'w gwella wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chamau gweithredu ar gyfer datblygiad proffesiynol yr athro/athrawes unigol. Yn olaf, mae'r broses gyfan yn galluogi'r athrawon a arsylwyd i roi adborth ar y broses arsylwi y maent wedi cael profiad ohoni (naill ai ar yr un ffurflen â'r arsylwadau neu ar ffurflen ar wahân). Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn yn cynnwys syniad o ba mor debygol ydyw y caiff arsylwi effaith gadarnhaol ar arfer yr athro/athrawes, gan alluogi colegau i asesu'n gynnar effaith bosibl arsylwi ar arfer addysgu.

**Astudiaeth achos: defnydd effeithiol o gofnodi gwaith papur yng Ngholeg Sir Benfro, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai**

Yng Ngholeg Sir Benfro, mae'r ffurflen arsylwi gwers wedi'i graddio yn gofyn i arsylwyr roi rheswm clir pam y rhoddwyd gradd benodol i agweddau ar y wers. Er enghraifft, 'Roedd yr asesiad yn DDA oherwydd...' Mae hyn yn egluro'r rheswm pam y dyfarnwyd gradd benodol.

Mae'r ffurflen arsylwi gwers hefyd yn cynnwys 14 o feini prawf ar wahân y gellir cofnodi fel a ganlyn: 'Arsylwyd yn y sesiwn' neu 'Gwelwyd tystiolaeth mewn dogfennau cynllunio' (neu trwy beidio â chofnodi unrhyw beth yn y naill flwch neu'r llall, 'ni welwyd trwy arsylwi nac mewn cynlluniau'. Mae'r meini prawf naill ai'n bresennol neu'n absennol (yn hytrach na wedi'u graddio).

Yng Ngrŵp Llandrillo Menai ac yng Ngholeg Cambria, caiff ystod o feini prawf eu hasesu ym mhob arsylwad hefyd. Caiff y rhain eu cyfateb i ddisgrifwyr naratif sy'n nodi'r canlyniadau wedi'u graddio. Caiff pob maen prawf ei raddio ar wahân.

Ym mhob un o'r tair enghraifft hyn, caiff y canlyniadau (p'un a oeddent yn bresennol neu'n absennol, neu ganlyniadau wedi'u graddio) eu cofnodi ar gyfer pob un o'r arsylwadau, gan alluogi'r coleg i adeiladu proffil manwl ar draws y coleg o gryfderau a meysydd i'w gwella. Hefyd, mae'r proffil ar gyfer athrawon unigol yn galluogi'r athrawon eu hunain i nodi eu blaenoriaethau datblygu. Yng Ngholeg Cambria, mae proffiliau athrawon wedi eu cysylltu â rhaglenni ac adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sydd wedi eu teilwra fesul unigolyn.

68 Yn y colegau gorau, mae ffurflenni ar wahân ar gael ar gyfer y cyd-destunau gwahanol y mae addysgu a dysgu yn digwydd ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys theori yn yr ystafell ddosbarth neu weithdy neu sesiynau ymarferol. Yn nodweddiadol, mae'r cyd-destunau hyn yn cynnwys un athro/athrawes a llawer o ddysgwyr (â staff cymorth neu beidio).

69 Yn nodweddiadol, sesiynau un-i-un yw adolygiadau neu asesiadau dysgu yn y gwaith. Mae'r ffurflenni mwyaf effeithiol yn canolbwyntio ar y medrau a'r strategaethau addysgu hyfforddi a mentora a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn y cyd-destunau hyn.

70 Fel arfer, mae ffurflenni arsylwi cymheiriaid neu fentora heb eu graddio yn llai strwythuredig ac yn canolbwyntio ar gynllunio camau gweithredu, datblygu meysydd i'w gwella, a chofnodi datblygiadau mewn arfer athrawon dros amser.

**Astudiaeth achos: ffurflenni arsylwi a luniwyd ar gyfer adolygiadau yn y gweithle ac aseswyr dysgu yn y gwaith yng Ngholeg Sir Benfro**

Mae gan arsylwyr yng Ngholeg Sir Benfro ddewis o ffurflenni arsylwi gwahanol i gofnodi'r sesiwn y maent yn ei harsylwi. Mae'r rhain yn cynnwys ffurflenni ar wahân a luniwyd ar gyfer sesiynau un-i-un, fel adolygiadau ac asesiadau dysgu yn y gwaith.

Mae'r ffurflenni'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar addysgu a dysgu sy'n berthnasol i adolygiadau ac asesiadau dysgu yn y gwaith, fel trafodaethau effeithiol

â'r cyflogwr, iechyd a diogelwch yn y gwaith, a chynllunio dysgu a datblygu medrau trwy weithgareddau yn y gwaith. Mae hyn yn galluogi arsylwyr i gydnabod y medrau penodol sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu un-i-un effeithiol.

Yn gyffredin â ffurflenni arsylwi addysgu eraill sy'n cael eu defnyddio yn y coleg, mae'r rhain yn cynnwys cyfres o feini prawf y mae'r arsylwr yn nodi eu bod yn bresennol, i'w gweld mewn cynlluniau, neu nad oeddent yn bresennol yn ystod yr adolygiad. Mae hyn yn galluogi'r coleg i gael trosolwg o'i gryfderau a'i wendidau, yn ogystal â nodi'r meysydd i'w datblygu neu arfer dda ar gyfer adolygwyr unigol.

## 6 Sut mae colegau'n sicrhau cysondeb a thegwch wrth arsylwi addysgu a dysgu?

71 Mae bron pob un o'r colegau yn yr arolwg yn defnyddio graddfa o farnau arfarnol ar gyfer arsylwi ffurfiol at ddibenion arfarnu staff. Mewn llawer o achosion, mae colegau'n defnyddio graddfa farnau a disgrifwyr graddau Estyn. Mantais hynny yw caniatáu ar gyfer cymharu'n uniongyrchol â therminoleg Estyn at ddibenion arolygu mewnol, ond mae'r perygl y gall colegau ddefnyddio'r disgrifwyr yn anghywir, gan roi hunanasesiad ffug. Mewn ychydig iawn o achosion, mae colegau wedi datblygu termau gwahanol ar gyfer barnau wedi eu seilio ar ddisgrifwyr barnau a ddatblygwyd gan y coleg.

**Astudiaeth achos: defnyddio arsylwadau heb eu graddio i arfarnu perfformiad athrawon yng Ngholeg Ceredigion**

Ar gyfer 2013-2014, mae'r coleg wedi cyflwyno system lle na chaiff graddau eu dyfarnu ar gyfer sesiynau unigol. Datblygwyd y dull hwn, yn rhannol, i newid yr amgyffrediad a'r ethos yn ymwneud ag arsylwi addysgu. Yn hytrach na dyfarnu barn ar ôl arsylwi athrawon unwaith, caiff perfformiad athrawon ei arfarnu mewn amrywiaeth o ffyrdd, a fydd yn ystyried yr holl weithgareddau amrywiol y mae athrawon yn gysylltiedig â nhw, ac sy'n cyfrannu at lwyddiant cyffredinol eu haddysgu a dysgu.

Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff barn gyffredinol ar sail graddfa bum pwynt syml yn defnyddio geiriau ag ystyr cyffredin, ei dyfarnu i bob un o'r athrawon. Yna, mae gan athrawon a'u rheolwyr llinell ddealltwriaeth fwy eglur o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu. Mae hefyd yn darparu ffordd o fesur perfformiad ar draws cyrsiau, meysydd dysgu a thros amser.

72 Mae'r holl golegau yn yr arolwg yn cymedroli ffurflenni arsylwi wedi'u graddio er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae panel o gymedrolwyr yn gwirio'r ffurflenni i sicrhau eu bod wedi eu llenwi'n briodol a bod sylwebaeth arfarnol yr arsylwr yn cyfateb i unrhyw radd a roddwyd. O ganlyniad, mae ffurflenni'n fwy arfarnol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gliriach, ac mae'r graddau a ddyfernir yn fwy dibynadwy.

73 Mae ychydig o golegau'n dadansoddi patrwm a graddau a ddyfernir gan arsylwyr unigol er mwyn canfod a oes unrhyw arsylwyr yn dangos patrymau o farnau anarferol a all awgrymu bod eu graddau'n annibynadwy. Pan fydd hyn yn digwydd, caiff arsylwyr eu hailhyfforddi neu ni chânt eu defnyddio i arsylwi yn y dyfodol.

74 Mewn tua hanner y colegau, mae cymedroli'n cynnwys cynrychiolwyr o golegau eraill neu sefydliadau allanol eraill, fel ysgolion partner. Mae hwn yn ddull defnyddiol o ran sicrhau graddau cyson ar draws grŵp ehangach o golegau ac mae'n gyfle defnyddiol arall i rannu arfer dda rhwng ysgolion a cholegau.

75 Yn y lleiafrif o golegau sydd â pholisi clir ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu, ceir dulliau ffurfiol sy'n galluogi athrawon i herio'r radd a ddyfarnwyd wrth arsylwi. Mae hawl ffurfiol i apelio yn hanfodol ar gyfer system arsylwi deg ac effeithiol. Mewn un enghraifft effeithiol, gall athrawon ofyn i'r arsylwr gwreiddiol eu hailarsylwi cyn pen tri diwrnod gwaith. Yna, caiff dyddiad arsylwi newydd ei gytuno rhwng yr aelod staff a'r arsylwr. Bydd uwch reolwr, ar lefel dirprwy bennaeth, yn bwynt apelio pan na all yr arsylwr a'r aelod staff gytuno ar radd ddynodedig. Gall yr uwch reolwr arsylwi'r aelod staff yn yr ystafell ddosbarth er mwyn datrys unrhyw gyfryw sefyllfa.

## 7 Effaith uno ar arfer arsylwi colegau

76 Dros y pedair blynedd diwethaf, mae colegau AB ledled Cymru wedi cymryd rhan mewn uno sylweddol, rhwng colegau AB a rhwng colegau AB a sefydliadau addysg uwch (AU). Mewn colegau lle bu uno rhwng AB ac AU, bu effaith yr uno ar arfer arsylwi addysgu a dysgu yn fach, oherwydd bod colegau wedi cadw eu hunaniaeth, eu staff a'u diwylliannau dysgu oddi mewn i'r sefydliad cyfunol mwy, at ei gilydd.

77 Yn achos uno rhwng colegau AB, bu effaith cryfach ar arfer arsylwi addysgu a dysgu. Yn benodol, mae ailstrwythuro a newidiadau i bersonél ar bob lefel wedi golygu bod angen i golegau cyfunol newydd 'ddod i adnabod eu hunain'. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn wedi golygu cyfnod cychwynnol lle mae arsylwi addysgu a dysgu wedi canolbwyntio ar hunanasesu ac arolygu mewnol.

78 Yn aml, mae colegau cyfunol wedi defnyddio'r uno yn gyfle i adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau a mabwysiadu arfer orau o'r colegau etifeddol. Mewn un enghraifft, mae coleg sydd wedi uno'n ddiweddar wedi cyfuno ethos cynorthwyol cryf un o'i golegau etifeddol â ffocws cryf un arall ar ansawdd yn effeithiol i lunio proses arsylwi addysgu a dysgu sy'n drylwyr ac yn gynorthwyol.

79 Erbyn hyn, mae gan yr holl golegau sydd wedi uno'n ddiweddar brosesau arsylwi addysgu a dysgu effeithiol ar waith, ac maent yn darparu hunanasesu trylwyr a dulliau datblygu a chynorthwyo priodol ar gyfer staff.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â'r colegau canlynol:

- Coleg Pen-y-bont
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Y Coleg Merthyr Tudful

Ym mhob coleg, cyfarfu arolygwyr ag uwch reolwyr a rheolwyr sy'n gyfrifol am y rhaglen arsylwi addysgu a dysgu, mentoriaid, athrawon y nodwyd eu bod yn ymarferwyr rhagorol ac athrawon y nodwyd bod angen iddynt ddatblygu.

Hefyd, mynychodd arolygwyr gyfarfodydd rhwydweithiau Addysgu a Dysgu a Rheolwyr Ansawdd ColegauCymru a chymryd rhan mewn trafodaethau e-bost â Choleg Ceredigion.

Cynhaliwyd ymweliadau'r arolygwyr yn ystod haf a hydref 2014.

**Rhestr gyfeiriadau**

Estyn (2014a) *Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/329647.5/Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd - Hydref 2014/?navmap= [Cyrchwyd 16 Gorffennaf 2015].

Estyn (2014b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2012-2013.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiad-blynyddol/Archif-Adroddiadau-Blynyddol/adroddiad-blynyddol-2012-2013/ [Cyrchwyd 16 Gorffennaf 2015].

## Atodiad 2: Gwahanol fathau o arsylwi addysgu a dysgu sy'n cael eu defnyddio mewn colegau

### Rhannu arfer effeithiol ymhlith staff

Fel arfer, bydd y math hwn o arsylwi'n digwydd pan fydd y coleg wedi nodi arfer effeithiol trwy fathau eraill o arsylwi ac yn barnu y byddai staff eraill yn y coleg yn elwa ar weld y math hwn o arfer. Gellir trefnu'r rhain trwy ddiwrnodau datblygu ar draws y coleg, 'ystafelloedd dosbarth agored' lle caiff staff eu gwahodd i ddod i arsylwi arfer dda athrawon eraill, sesiynau datblygu penodol wedi eu hamserlennu sydd â'r diben o ddatblygu athrawon y nodwyd bod ganddynt feysydd i'w gwella, neu drwy fentoriaid yn modelu eu harfer eu hunain. Mewn achosion eraill, bydd athrawon yn trefnu eu sesiynau eu hunain yn anffurfiol rhwng ei gilydd o ganlyniad i drafodaethau yn yr ystafell staff am syniadau addysgu. Ni chânt eu graddio.

### Datblygu dulliau addysgu penodol, medrau a ffyrdd arloesol o addysgu

Mae'r arsylwadau hyn yn digwydd amlaf pan fydd rheolwyr yn ceisio gwella arfer ar draws y coleg cyfan, neu pan fydd aelodau cymuned ddysgu broffesiynol yn ceisio mesur effaith ffyrdd newydd o weithio yn yr ystafell ddosbarth. Pan fydd y coleg yn ceisio datblygu mwy o gysondeb mewn addysgu ar draws y coleg, gall ofyn i aelodau staff weithio mewn parau neu grwpiau o dri i ddangos ffyrdd penodol o weithio i'w gilydd, neu gall ddod ag ymgynghorydd i arddangos syniadau penodol. Mae'r rhain yn gweithio orau pan fydd rheolwyr yn sicrhau bod cynllunio ar waith i ganiatáu amser i staff drafod y wers cyn ac ar ôl cael eu harsylwi, yn ogystal â sicrhau amser ar gyfer yr arsylwi ei hun. Pan fydd athrawon yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol, bydd staff yn y gymuned broffesiynol yn aml yn trefnu eu hamser eu hunain i arsylwi a datblygu eu syniadau. Ni chânt eu graddio.

### Datblygu agweddau ar arfer ag athrawon trwy gymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol

Mae datblygu cymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol yn helpu colegau i ddatblygu arfer addysgu effeithiol sy'n codi safonau cyflawniad dysgwyr. Mae colegau wedi defnyddio eu prosiectau'r Gronfa Gwella Ansawdd i sbarduno cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer ar draws colegau. Pan fydd staff yn cydweithio mewn grŵp proffesiynol, mae'n eu helpu i fyfyrio'n fwy gofalus ar eu gwaith a gweld eu hunain fel rhan o dîm sy'n gweithio tuag at nod gyffredin. Mewn llawer o achosion, mae arsylwi addysgu a dysgu yn ffurfio rhan o weithgareddau'r gymuned ddysgu broffesiynol. Mewn llawer o'r achosion mwyaf effeithiol, mae aelodau'r gymuned yn cytuno ar egwyddorion cyffredin ynghylch arsylwi ac yn sicrhau eu bod yn creu ffurflen arsylwi sy'n benodol i'w hanghenion. Wrth i aelodau'r gymuned ddysgu broffesiynol ddatblygu cynlluniau arsylwi, mae'r unigolyn arweiniol fel arfer yn cysylltu â rheolwyr i roi'r amserlen arsylwi ar waith o fewn cyfnod penodol o amser. Ni chânt eu graddio.

### Mentora a hyfforddi athrawon presennol, staff cymorth a darpar athrawon

Ym mron pob achos, mae colegau'n defnyddio mentoriaid – sef ymarferwyr profiadau ac effeithiol - i ddarparu rhaglen gynlluniedig o gyfleoedd mentora neu hyfforddi i staff y mae angen iddynt ddatblygu, neu i helpu i rannu arfer dda. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn cynnwys arsylwi addysgu a dysgu, lle mae mentoriaid yn arsylwi athrawon dros sawl sesiwn ac yn rhoi adborth sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol, ac yn osgoi unrhyw farn ar ansawdd yr addysgu. Un o nodweddion allweddol y math hwn o arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a rhoi adborth yw'r cyfle i'r athrawon sy'n cael eu harsylwi wella eu harfer trwy ddeialog broffesiynol â chydweithiwr. Wrth fentora, ceir ffocws ar gyfnewid syniadau, ac wrth hyfforddi, ceir ffocws ar yr arsylwr yn gofyn cwestiynau ac yn galluogi'r aelod staff i ddatblygu ei (h)arfer ei hun trwy fyfyrio ac arbrofi. Bydd y dechneg a ddefnyddir yn dibynnu ar gam yr athrawon sy'n cael eu harsylwi yn eu datblygiad proffesiynol eu hunain a graddau eu hanghenion datblygu.

Hefyd, mae mentoriaid yn cydweithio ag athrawon mewn hyfforddiant neu yn ystod eu cyfnod prawf. Mae adborth yn y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar hyfedredd cynyddol yng ngallu'r hyfforddai i ddod yn gymwys o ran cyflawni'r safonau perthnasol. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, wrth i alluoedd hyfforddeion ddatblygu, mae mentoriaid yn symud ymlaen o ddarparu adborth i helpu hyfforddeion i fyfyrio ar eu harfer eu hunain a'i datblygu trwy holi'n fedrus. Ni chânt eu graddio, fel arfer.

### Helpu llywodraethwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddysgu a bywyd a gwaith y coleg trwy brofiad uniongyrchol

Mae gan lywodraethwyr rôl bwysig o ran goruchwylio a llywio cyfeiriad y coleg. Er y daw llywodraethwyr â llawer o fedrau defnyddiol, mewn llawer o achosion nid oes ganddynt ddealltwriaeth fanwl o waith colegau o ddydd i ddydd. I'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth, fel arfer mae llywodraethwyr yn ymgymryd â rôl sy'n eu cysylltu ag agwedd ar waith y coleg. Mewn ychydig o achosion, mae llywodraethwyr yn ymweld â'r coleg ac yn ymgymryd â 'thaith ddysgu' neu'n arsylwi gwers ochr yn ochr ag uwch aelod o'r staff. Mae'r ymweliadau hyn yn fwyaf effeithiol pan fydd gan y llywodraethwr amserlen arsylwi â ffocws da. Mae casglu tystiolaeth uniongyrchol yn helpu llywodraethwyr i ddeall natur gymhleth gwaith y coleg a llunio barnau mwy gwybodus am faterion sy'n cael eu codi yn y corff llywodraethol. Ni chânt eu graddio.

### Canfod ansawdd addysgu ymgeisydd wrth wneud cais am swydd yn y coleg

Mewn llawer o achosion, mae colegau wedi cyflwyno gweithgaredd arsylwi yn y broses ddethol ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer i'w helpu i lunio barn wybodus am ansawdd addysgu'r ymgeisydd. Mewn llawer o achosion, bydd ymgeiswyr yn addysgu gwers i ddosbarth yn y coleg ar ddiwrnod y cyfweliad. Bydd y panel dethol yn ceisio adborth gan ddysgwyr ar eu hargraffau o'r wers. Mae'r dystiolaeth uniongyrchol a gânt o'r dasg arsylwi yn bwysig o ran eu helpu i benodi staff addysgu effeithiol. Cânt eu graddio fel rhan o'r broses gyfweld.

## Monitro amcanion y coleg

Fel rhan o'r cylch ansawdd blynyddol, mae uwch reolwyr yn cynllunio adegau penodol i fonitro cynnydd tuag at dargedau yng nghynllun datblygu ansawdd y coleg. Ni fydd holl amcanion monitro'r coleg yn cynnwys arsylwi addysgu a dysgu. Gall rheolwyr ddefnyddio offer monitro eraill, neu gyfuniad o offer, fel data, craffu ar lyfrau neu holiaduron dysgwyr. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, bydd monitro'n cynnwys arsylwi addysgu a dysgu, er enghraifft os bydd coleg yn ceisio gwella ystod y strategaethau holi a ddefnyddir gan athrawon. Gallant gael eu graddio neu beidio.

## Hunanasesiad y coleg neu faes dysgu

Fel arfer, bydd colegau'n cynnal hunanasesiadau'n flynyddol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn cynnwys hunanasesiadau meysydd dysgu, sy'n cael eu hymgorffori yn hunanasesiad cyffredinol y coleg. Mewn llawer o achosion, mae colegau'n cynnal arolygiad mewnol yn dilyn arddull Estyn. Caiff y meysydd dysgu eu dewis i fod yn rhan o'r arolygiadau mewnol hyn ar sail dreigl neu gan ddefnyddio dull ar sail risg. Fel arfer, caiff arsylwi addysgu a dysgu ei ddefnyddio yn ystod arolygiadau mewnol ar y cyd ag ystod o offer hunanasesu eraill. Cânt eu graddio, fel arfer.

## Rheoli perfformiad

Gwneir y math hwn o arsylwi fel rhan o'r adolygiad blynyddol o berfformiad aelod staff. Mae'n canolbwyntio ar dargedau rheoli perfformiad y coleg cyfan ac unigolion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae'r arsylwi'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae cynllunio, addysgu ac asesu yn effeithio ar safonau cyflawniad dysgwyr. Mae canlyniadau arsylwadau rheoli perfformiad yn galluogi rheolwyr i ddeall cryfderau aelodau staff unigol a'u meysydd i'w datblygu, ac yn llywio dealltwriaeth y coleg o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella yn gyffredinol, ynghyd â'i gynllun datblygu staff. Cânt eu graddio, fel arfer.

# Atodiad 3: Gwybodaeth gryno am y colegau

| Enw'r coleg | Nifer y dysgwyr amser llawn (rhan-amser) [4] | Ynglŷn â'r coleg[5] | Wedi uno'n ddiweddar |
|---|---|---|---|
| Coleg Pen-y-bont | 2645 (5820) | Mae Coleg Pen-y-bont yn goleg addysg bellach â myfyrwyr ar draws chwe champws, yn rhychwantu Pen-y-bont ar Ogwr, Pencoed, Maesteg a Chaerdydd. Mae'r coleg yn cynnig ystod o gyrsiau galwedigaethol amser llawn a rhan-amser, yn amrywio o Lefel 1 i lefel gradd. Mae'r coleg yn denu myfyrwyr o fwrdeistrefi Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn bennaf, ond mae ganddo fyfyrwyr o fwrdeistrefi cyfagos eraill. Mae cyfleuster preswyl hefyd yn Nhŷ Weston, i fyfyrwyr ag anableddau rhwng 16 a 25 oed sy'n astudio yn y coleg ar sail amser llawn. | Nac ydy |
| Coleg Cambria | 6510 (12620) | Sefydlwyd Coleg Cambria yn Awst 2013 ac mae'n darparu addysg i fyfyrwyr ar draws saith campws yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Gall myfyrwyr astudio ystod o gyrsiau addysg bellach academaidd neu alwedigaethol, prentisiaethau neu gyrsiau addysg uwch, naill ai ar sail amser llawn neu ran-amser. | AB-AB (2013) |
| Coleg Ceredigion | 610 (1335) | Unodd Coleg Ceredigion â grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Ionawr 2014, ac mae'n darparu ystod o gyrsiau ôl-16 galwedigaethol ac academaidd, gan gynnwys Safon Uwch, BTEC, cyrsiau mynediad i Addysg Uwch a phrentisiaethau. Mae'r coleg yn gweithredu o ddau gampws, sef un yn Aberystwyth ac un yn Aberteifi. | AB-AU (2014) |
| Coleg Gwent | 7275 (17595) | Coleg AB sy'n gwasanaethu ardal de-ddwyrain Cymru yw Coleg Gwent. Mae dysgwyr yn astudio ar draws pum campws gwahanol sy'n cwmpasu bwrdeistrefi Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae Coleg Gwent yn cynnig ystod o gyrsiau academaidd a galwedigaethol amser llawn a rhan-amser, gan gynnwys Safon Uwch, prentisiaethau, cyrsiau addysg uwch lefel y brifysgol, Cymraeg i Oedolion a hyfforddi'r gweithlu i gyflogwyr. | Nac ydy |
| Coleg Sir Gâr | 2570 (3785) | Yn Awst 2013, unodd Coleg Sir Gâr â grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae Coleg Sir Gâr yn cynnig ystod o gyrsiau addysg bellach, addysg uwch a dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys Safon Uwch, TGAU, cyrsiau mynediad i addysg uwch, cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol a phrentisiaethau ar draws pum campws yn Sir Gâr. | AB-AU (2013) |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 4470 (8240) | Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn gweithredu ar draws pedwar campws yn Abertawe, ac mae pob campws yn cynnig cyrsiau gwahanol. Mae campws Gorseinon yn cynnwys dros 2,000 o | AB-AB (2010) |

[4] Nifer y dysgwyr amser llawn a rhan-amser. Nid yw'n cynnwys dysgwyr yn y gwaith. Ffynhonnell: https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue. Data ar gyfer blwyddyn academaidd 2012-2013. Lle nad yw data ar gyfer colegau cyfunol yn bodoli, cyfrifiwyd nifer y dysgwyr trwy adio nifer y dysgwyr yn y colegau etifeddol.

[5] Ffynhonnell: gwefannau'r colegau

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fyfyrwyr amser llawn sy'n astudio ystod o gyrsiau Safon Uwch a galwedigaethol, yn bennaf. Mae campysau eraill yn cynnwys Canolfan Ffordd y Brenin yng nghanol dinas Abertawe, Llwyn y Bryn a Tycoch, sy'n ganolfannau ar gyfer cyrsiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill a chyrsiau medrau hanfodol, celfyddydau creadigol a mynegiannol, a chyrsiau galwedigaethol, mynediad a phrentisiaeth, yn ôl eu trefn. | |
| Grŵp Llandrillo Menai | 6915 (16430) | Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys tri choleg, sef Coleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai, ac mae'n darparu cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch i dros 27,000 o fyfyrwyr ar draws Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Mae'r holl golegau'n cynnwys ystod o gyrsiau Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol, cymwysterau lefel y brifysgol a rhaglenni dysgu yn y gwaith, gan gynnwys prentisiaethau ar draws cyfanswm o 14 campws. | AB-AB (2012) |
| Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot | 4315 (7745) | Ffurfiwyd Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot yn dilyn uno rhwng Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys. Mae'r coleg yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau amser llawn a rhan-amser ar draws 12 campws o Bort Talbot yn ne Cymru i'r Drenewydd yng nghanolbarth Cymru. Mae'r cyrsiau sydd ar gael yn cynnwys cyrsiau BTEC, Safon Uwch, graddau addysg uwch, cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned a phrentisiaethau yn y gwaith. | AB-AB (2013) |
| Coleg Sir Benfro | 1440 (4870) | Mae Coleg Sir Benfro yn gweithredu o gampws pwrpasol yn Hwlffordd ac mae'n darparu ar gyfer tua 2,000 o fyfyrwyr amser llawn a 12,500 o fyfyrwyr rhan-amser. Mae'r coleg yn cynnig ystod o gyrsiau, gan gynnwys Safon Uwch, prentisiaethau, graddau addysg uwch a chyrsiau rhan-amser gyda'r nos. | Nac ydy |
| Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant | 1455 (90) | Mae Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant yn goleg chweched dosbarth i rai 16 i 19 oed yng Nghaerdydd. Er y rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr o bedair ysgol bartner Gatholig y coleg, croesewir myfyrwyr o grefyddau a chefndiroedd eraill, ynghyd â myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau TGAU, Safon Uwch a BTEC i'w fyfyrwyr, yn ogystal â chyfle i astudio Bagloriaeth Cymru. | Nac ydy |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 1170 (1975) | Mae Coleg Merthyr Tudful yn goleg trydyddol sy'n cynnig ystod o gyrsiau Safon Uwch, addysg bellach ac addysg uwch i fyfyrwyr. Mae dros 2,000 o fyfyrwyr yn astudio ar draws dau gampws; cyfleuster pwrpasol newydd yng nghanol y dref, sy'n gartref i'r mwyafrif o bynciau, a 'Redhouse' yn Hen Neuadd y Dref sy'n cynnig cyfle i'r holl fyfyrwyr cerddoriaeth, y cyfryngau, ffilm, dawns, drama a theatr dechnegol astudio mewn cyfleusterau pwrpasol o safon broffesiynol. | Nac ydy |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Steve Bell | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Eleanor Davies | Tîm yr arolwg |
| Joan Siddle | Tîm yr arolwg |